



*Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate  
for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Gynradd Waun Wen  
Lion Street  
Waun Wen  
Abertawe  
SA1 2BZ**

**Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**



Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
<b>Rhagorol</b>	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
<b>Da</b>	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
<b>Digonol</b>	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
<b>Anfoddhaol</b>	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.gov.uk](mailto:cyhoeddiadau@estyn.gov.uk)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

[www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk)

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 04/09/2013

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Waun Wen mewn ardal canol dinas yn Abertawe. Mae'r adeilad wedi'i ailfodelu'n helaeth dros y blynyddoedd, ac mae bellach yn cynnwys cyfleuster 'Dechrau'n Deg'.

Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn darparu ar gyfer 143 o ddisgyblion oedran derbyn i Flwyddyn 6, yn ogystal â 41 o ddisgyblion oed meithrin, sy'n mynychu'n rhan-amser. Roedd y nifer ar y gofrestr wedi gostwng gryn dipyn dros y blynyddoedd diwethaf, ond newidiodd y duedd yn 2011. Mae mwyafrif y disgyblion yn byw yn yr ardal leol, er bod lleiafrif o rieni yn dewis anfon eu plant i'r ysgol o'r tu allan i'r dalgylch. Disgrifir yr ardal a wasanaethir gan yr ysgol fel ardal ddifreintiedig yn gymdeithasol ac economaidd. Daw disgyblion o ystod o gartrefi preifat, cartrefi rhent a chartrefi cymdeithasau tai, ac mae cyfradd uchel o symudedd disgyblion.

Mae hawl gan ryw 55% o ddisgyblion i gael prydau ysgol am ddim, ac mae hyn ymhell uwchlaw'r cyfartaleddau lleol a chenedlaethol. Mae'r ysgol yn nodi bod anghenion dysgu ychwanegol gan bron i 40% o'r disgyblion. Mae datganiad o angen addysgol arbennig gan ychydig iawn o ddisgyblion. Daw rhyw 21% o ddisgyblion o gefndir ethnig lleiafrifol a siaradant Saesneg fel iaith ychwanegol, ac mae 12 o deuluoedd sy'n geiswyr lloches. Mae gweddill y disgyblion yn wyn Prydeinig. Nid yw'r un disgybl yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd.

Penodwyd y pennaeth yn 2001. Yn 2007 y cynhaliwyd yr arolygiad diwethaf o'r ysgol.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Waun Wen yn 2012-2013 yn golygu mai'r gyllideb yw £3,923 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Abertawe yw £9,629 a'r lleiafswm yw £2,634. Mae Ysgol Gynradd Waun Wen yn yr 17eg safle o'r 87 o ysgolion cynradd yn Abertawe o safbwynt ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

<b>Perfformiad presennol yr ysgol</b>	<b>Digonol</b>
<b>Rhagolygon gwella'r ysgol</b>	<b>Da</b>

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol, oherwydd:

- mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen, a'r mwyafrif yng nghyfnod allweddol 2, yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'u manau cychwyn;
- mae medrau siarad a gwrando llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda;
- mae'r perthnasoedd rhwng staff a disgyblion yn gadarnhaol;
- mae lefelau gofal, cymorth ac arweiniad yn uchel iawn; ac
- mae llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn datblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn dda.

Fodd bynnag:

- dros gyfnod, nid yw safonau cyrhaeddiad yn cymharu'n dda â safonau mewn ysgolion tebyg;
- nid yw bechgyn yn cyflawni cystal â merched yn gyson; ac
- mae lefel presenoldeb y disgyblion yn rhy isel.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- caiff gweledigaeth a nodau'r ysgol eu cefnogi'n dda gan bob aelod o staff yr ysgol;
- mae mentrau pwysig a gyflwynwyd gan uwch arweinwyr yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu;
- mae'r corff llywodraethol yn cefnogi'r ysgol yn dda ac yn cyflawni ei rôl yn ddyfal fel ffrind beirniadol;
- mae gan arweinwyr ddealltwriaeth glir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella; ac
- mae'r cynllunio ar gyfer gwella yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau ar gyfer disgyblion.

## Argymhellion

- A1 Codi safonau cyrhaeddiad mewn darllen, ysgrifennu a mathemateg yng nghyfnod allweddol 2
- A2 Codi cyrhaeddiad bechgyn
- A3 Gwella cyfraddau presenoldeb
- A4 Sicrhau bod yr athrawon yn herio disgyblion mwy galluog
- A5 Mewn gwersi, cynnig mwy o gyfleoedd i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 i ysgrifennu'n annibynnol ac yn estynedig

### **Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

### Digonol

#### Safonau: Digonol

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cychwyn yn yr ysgol gyda lefelau medrau islaw'r lefelau a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni cystal â disgyblion mewn llawer o ysgolion yn ei theulu. At ei gilydd, mae merched yn cyflawni'n well na bechgyn. Mae bron pob un o'r disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn wrandawyr da, a thalant sylw manwl i'w athrawon. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn siarad yn glir ac yn hyderus, ac maent yn rhannu'u meddyliau a'u syniadau yn dda gyda'u partneriaid. Drwy'r Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da o ran dysgu sut mae llythrennau a seiniau yn mynd gyda'i gilydd i wneud geiriau. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn fedrus. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da o ran dysgu ysgrifennu.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion wedi gwneud cynnydd priodol. Dros y pedair blynedd diwethaf, fodd bynnag, mae cyrhaeddiad disgyblion ar ddiwedd y cyfnod allweddol wedi bod yn isel o'i gymharu â chynnydd disgyblion mewn ysgolion tebyg. Mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd priodol mewn darllen, a defnyddiant eu gwybodaeth am lythrennau a seiniau yn dda i ddarllen geiriau anghyfarwydd. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio atalnodi yn dda i gynorthwyo eu mynegiant. Mae llawer yn gyfarwydd ag ystod o genres ac yn esbonio'u hoff rai yn glir. Mae hoff awdur gan bron pob un o'r disgyblion, a gallant roi crynodeb o'u hoff lyfr. Mae'r mwyafrif yn dangos sut i ddefnyddio tabl cynnwys a mynegai mewn llyfr ffeithiol yn gywir, ac yn esbonio sut byddent yn mynd ati i ddefnyddio dull brasddarllen a sganio wrth chwilio am wybodaeth.

Trwy gyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n briodol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r mwyafrif ohonynt yn ysgrifennu mewn ystod o arddulliau a gyda darllenwyr amrywiol mewn cof. Ar y cyfan, mae disgyblion yn cyflwyno'u gwaith yn dda. Mae dealltwriaeth dda gan lawer o ddisgyblion o reolau gramadeg ac atalnodi. Gall llawer ohonynt gyfleu eu syniadau yn dda mewn pynciau eraill. Yng nghyfnod allweddol 2, fodd bynnag, nid yw disgyblion yn ysgrifennu'n ddigon da yn annibynnol ac yn estynedig.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn dysgu Cymraeg, ac maent yn cymryd rhan mewn sgwrs syml ag oedolion yn fynych. Mae'r cynnydd hwn yn parhau i mewn i gyfnod allweddol 2, er yn arafach. Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn dysgu ac yn defnyddio medrau mewn TGCh yn dda. Mewn llawer o weithgareddau ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn magu mwy a mwy o hyder wrth weithio'n annibynnol yn datrys problemau.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da o'u manau cychwyn.

Yn 2012, roedd cyfran y disgyblion yn cyflawni dangosydd deilliannau'r Cyfnod Sylfaen uwchlaw cyfartaledd y teulu o ysgolion, ac yn cymharu'n dda ag ysgolion tebyg eraill. O ran y deiliant uwch na'r disgwyl (deiliant 6), roedd cyrhaeddiad fwy neu lai yr un fath â chyfartaledd y teulu, ac roedd yr ysgol yn y 50% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Yn gyffredinol, fe wnaeth merched gyflawni'n well na bechgyn. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae cyrhaeddiad disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi gosod yr ysgol yn gyson yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg. O fewn ei theulu o ysgolion, fodd bynnag, mae cyrhaeddiad yr ysgol fwy neu lai yn unol â'r cyfartaledd. Yn 2012, mewn Saesneg, roedd medrau siarad a gwranddo'r disgyblion ymhlith y gorau yn y teulu o ysgolion, ac roedd eu medrau ysgrifennu yr un fath â chyfartaledd y teulu. Fodd bynnag, roedd cyrhaeddiad disgyblion mewn darllen islaw cyfartaledd y teulu o ysgolion a chyfartaledd ysgolion tebyg. Roedd ymhell islaw'r cyfartaledd ar gyfer holl ysgolion Cymru.

Yn 2012, fe wnaeth merched yng nghyfnod allweddol 2 gyflawni'n well na bechgyn mewn Saesneg. Fodd bynnag, mewn mathemateg a gwyddoniaeth, ac mewn Saesneg ar y lefel 5 uwch, roedd cyrhaeddiad bechgyn yn uwch. Nid yw'r disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol yn gwneud cystal â disgyblion eraill yn gyson.

### **Lles: Digonol**

Mae agweddau cadarnhaol gan y rhan fwyaf o ddisgyblion at fyw'n iach, gan fwyta'n iach mewn clwb brechwast ac amser cinio. Maent yn ymwybodol o bwysigrwydd ffordd weithgar o fyw a manteisiant ar lawer o gyfleoedd i wneud ymarfer corff egniol.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn frwdfrydig ac yn awyddus i ddysgu. Maent yn cydweithredu'n effeithiol â'i gilydd yn eu gwersi a'u gweithgareddau. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gweithio'n dda yn annibynnol a dan gyfarwyddyd oedolion. Mae disgyblion yn cael eu cynnwys yn gynyddol yn y broses asesu; maent yn cytuno meini prawf llwyddo ac yn gosod targedau personol, ac mae hyn yn helpu disgyblion i gael dealltwriaeth o'u cryfderau a'u gwendidau.

Mae'r lefel presenoldeb islaw'r cyfartaledd lleol a'r cyfartaledd cenedlaethol, a dros y pedair blynedd mae wedi gosod yr ysgol yn y 50% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg.

Mae'r ysgol wedi sefydlu cyngor disgyblion ac eco gyngor. Mae'r disgyblion yn deall eu rolau yn glir iawn a chymerant eu cyfrifoldebau o ddifrif. Gwnânt gyfraniad gwerthfawr at benderfyniadau. Er enghraifft, maent wedi bod â rhan allweddol yn darparu offer ychwanegol i'r buarth chwarae.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn cyd-dynnu'n dda â'i gilydd ac mae eu hymddygiad yn dda iawn. Maent yn foesgar ac yn gwrtais i ymwelwyr. Yn gyffredinol, mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel iawn yn yr ysgol, ac maent yn hyderus y bydd yr ysgol yn delio â phroblemau yn gyflym ac yn deg.

<b>Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?</b>
--

<b>Digonol</b>
----------------

### **Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm eang a chytbwys sy'n bodloni'r gofynion. Mae amrywiaeth eang o gyfleoedd allgyrsiol yn cyfoethogi'r cwricwlwm. Mae profiadau dysgu yn y Cyfnod Sylfaen yn llwyddo i ennyn diddordeb disgyblion mewn ystod dda o weithgareddau diddorol ym mhob maes dysgu, yn yr ystafell ddosbarth a'r awyr agored.

Ar draws yr ysgol, mae profiadau dysgu yn sicrhau bod disgyblion yn adeiladu eu medrau rhifedd a TGCh yn llwyddiannus wrth iddynt symud o ddosbarth i ddosbarth. At ei gilydd, mae'r cynllunio yn dda ar gyfer datblygu medrau cyfathrebu'r disgyblion, ac mae'r athrawon yn ategu eu hadnoddau eu hunain gyda deunyddiau wedi'u cynhyrchu'n fasnachol. Mewn llythrennedd, rhoddir sylw da i ramadeg ac atalnodi. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion yn cael digon o gyfle i ysgrifennu'n annibynnol ac yn estynedig.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad yr iaith Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen yn dda ac yn briodol yng nghyfnod allweddol 2. Caiff dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliant a threftadaeth Cymru ei hyrwyddo'n dda.

Mae addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy yn dda. Mae ymwybyddiaeth drylwyr gan y disgyblion o bwysigrwydd ailgylchu ac o arbed ynni a thanwydd. Mae'r disgyblion yn frwdfrydig iawn ynghylch eu gwelyau blodau a llyisiau ar y buarth chwarae, a siaradant yn uchel am yr amser a dreuliant ar y rhandir, sy'n eu helpu i ddysgu am gynhyrchu bwyd iach. Caiff disgyblion gyfleoedd mynych i ddatblygu'u dealltwriaeth o fywydau pobl eraill drwy gysylltiadau ag ysgolion yn Tsieina, Affrica ac Ewrop.

### **Addysgu: Digonol**

Ar draws yr ysgol, mae bron pob un o'r athrawon yn sefydlu perthynas weithio dda gyda'u disgyblion. Mae llawer ohonynt yn cynllunio gwersi'n drylwyr ac yn ennyn diddordeb disgyblion mewn amrywiaeth o weithgareddau diddorol sy'n diwallu anghenion mwyaf y disgyblion. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn herio disgyblion mwy galluog yn ddigon da. Mewn gwersi, nid yw athrawon yng nghyfnod allweddol 2 yn cynnig digon o gyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu'n annibynnol nac yn estynedig. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn cyflawni cystal ag y gallent. Mae rhediad da i'r rhan fwyaf o wersi a defnyddia'r athrawon amrywiaeth o strategaethau addysgu sy'n addas i'r dasg. Mae llawer ohonynt yn defnyddio dull holi medrus i helpu disgyblion i ddeall a datblygu eu medrau meddwl a chyfathrebu. Mae cynorthwyrwyr addysgu yn rhoi cymorth da i ddisgyblion ag anghenion ychwanegol.

Mae athrawon yn gwybod pa mor dda y mae eu disgyblion yn dod yn eu blaen. Rhoddant adborth lafar dda, gan ymyrryd ar adegau priodol a marcio llyfrau'r disgyblion yn rheolaidd. Mae eu sylwadau yn gefnogol yn aml, ond nid ydynt yn galluogi disgyblion i farnu'n gyson pa mor llwyddiannus y buont, neu sut gallant wella'u gwaith. Caiff disgyblion eu hannog i asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion.



Mae staff yn mesur ac yn olrhain cynnydd disgyblion yn ofalus gan ddefnyddio system gyfrifiadur a gyflwynwyd yn ddiweddar. Mae hyn yn galluogi athrawon i sicrhau bod disgyblion yn dod yn eu blaen yn briodol ac yn eu helpu i osod targedau ar gyfer gwella. Mae adroddiadau i rieni yn esbonio'n glir pa mor dda y mae disgyblion yn dod yn eu blaen a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella.

### **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar iawn sy'n gwneud ymdrech fawr i sicrhau lles corfforol ac emosiynol disgyblion. Mae'r ysgol yn mynd ati i hyrwyddo presenoldeb da a bydd yn gwirio'n gyson pan fydd disgyblion ynabsennol. Ceir trefniadau cynhwysfawr, ar y cyd ag asiantaethau allanol fel y gwasanaeth iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol, i gefnogi disgyblion sy'n agored i niwed a'r rheini o gefndiroedd difreintiedig. Mae trefniadau da ar waith ar gyfer delio ag aflonyddu a bwlio, ac mae disgyblion yn gwbl hyderus yn y system. Mae darpariaeth briodol ar gyfer addysg rhyw a pherthnasoedd ac agweddau eraill ar iechyd a diogelwch.

Mae amser cylch dyddiol, gwaith testun a gweithredoedd addoli ar y cyd yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn dda. Maent yn deall rheolau'r ysgol ac yn cydymffurfio â nhw, a dysgant, er enghraifft, am bwysigrwydd gonestrwydd a geirwiredd. Mae'r ysgol yn cefnogi datblygiad diwylliannol disgyblion yn dda trwy lawer o weithgareddau chwaraeon, digwyddiadau cerddorol a phrosiect hanes ar y cyd ag Amgueddfa Genedlaethol y Glannau.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae gan yr ysgol raglen gynhwysfawr a threfnus o gymorth ac arweiniad targedig i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae athrawon yn nodi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gynnar, ac yn rhoi ystod eang o ymyriadau a chymorth ar waith. Caiff disgyblion eu hasesu'n rheolaidd gan yr athrawon er mwyn sicrhau eu bod yn cwrdd â'r targedau yn eu cynlluniau addysg unigol.

### **Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn groesawgar i ddisgyblion, rhieni ac ymwelwyr, ac mae'n cydnabod ac yn dathlu amrywiaeth. Mae'n parchu ac yn hyrwyddo hawliau unigolion ac mae arddangosfeydd amlwg o amgylch yr ysgol sy'n atgyfnerthu'r ethos cynhwysol.

Er gwaethaf cyfyngiadau'r adeilad oherwydd ei oed a'l leoliad ar safle llethrog, mae'r adeilad yn ddigonol ac mae'r ysgol wedi'i wneud mor ddeniadol ag y bo modd. Ceir llawer o arddangosfeydd rhyngweithiol lliwgar sy'n amlygu gwaith disgyblion. Mae lefelau da o waith cynnal a chadw, er bod y toiledau a ddefnyddir gan ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 wedi dyddio, gyda chuddyglau bach a thystiolaeth o broblem lleithder barhaus. Mae'r buarthau chwarae mewn cyflwr da yn gyffredinol, ac mae disgyblion wedi bod â rhan yn eu datblygu yn fannau chwarae a chwaraeon a manau tawel. Fodd bynnag, mae rhannau o'r wyneb yn anwastad iawn.

Mae cyflenwad digonol o adnoddau. Mae disgyblion yn defnyddio'r offer TGCh yn dda. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn defnyddio'i hadnoddau eraill yn ddigon da bob amser.

<b>Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?</b>	<b>Da</b>
--	-----------

### **Arweinyddiaeth: Da**

At ei gilydd, mae arweinyddiaeth yr ysgol yn effeithiol. Mae'r uwch dîm rheoli a'r corff llywodraethol yn cynnig cefnogaeth dda iawn i'r pennaeth. Maent yn rhannu gweledigaeth glir sy'n darparu arweinyddiaeth strategol effeithiol i'r ysgol, ac sy'n dylanwadu'n gadarnhaol ar fywyd a gwaith yr ysgol. Mae pob aelod o'r staff yn gwybod beth yw eu rolau a'u cyfrifoldebau a chydweithredant yn effeithiol i sefydlu ethos meithringar ar gyfer disgyblion. Gweithiant yn gydwybodol fel tîm a defnyddiant gyfarfodydd rheolaidd yn bwrpasol i gefnogi'u datblygiad proffesiynol. Mae eu parodrwydd i gynorthwyo a herio'i gilydd, ac i fabwysiadu mentrau newydd fel defnyddio cyfrifiaduron llechen, yn cyfrannu'n sylweddol at wella addysgu a dysgu.

Mae'r corff llywodraethol yn cyflawni ei rwymedigaethau statudol yn dda iawn. Caiff cyfarfodydd eu trefnu'n effeithlon ac maent yn canolbwyntio'n briodol ar wella'r ysgol. Mae'r llywodraethwyr yn wybodus ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o sut mae perfformiad yr ysgol yn cymharu â pherfformiad ysgolion tebyg eraill. Cyflawnant eu swyddogaeth fel ffrind beirniadol yn ddyfal, gan gefnogi a herio'r ysgol i wella ymhellach.

Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd da o ran cyflwyno mentrau sy'n bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, fel asesu ar gyfer dysgu, datblygu llythrennedd a hyrwyddo'r Gymraeg. Law yn llaw â'r ymateb i leihau effaith amddifadedd cymdeithasol, mae'r mentrau hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar safonau cyflawniad disgyblion.

### **Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r ysgol yn datblygu gweithdrefnau cadarn ar gyfer arfarnu ansawdd ei bywyd a'i gwaith. Mae pob un o'r staff yn cyfrannu at weithdrefnau sy'n defnyddio ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol. Caiff data cyrhaeddiad disgyblion ei ddadansoddi'n ofalus er mwyn canfod tueddiadau a meysydd i'w gwella. Mae'r uwch aelodau staff yn gwneud defnydd da o arsylwadau dosbarth i sicrhau bod yr addysgu'n effeithiol, ac mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth dda i safbwyntiau disgyblion a rhieni. O ganlyniad, mae gan arweinwyr a rheolwyr ddarlun cywir o gryfderau a diffygion yr ysgol.

Mae'r tîm arweinyddiaeth a ad-drefnwyd yn ddiweddar yn defnyddio deilliannau hunanarfarnu'n effeithiol i bennu blaenoriaethau a thargedau clir ar gyfer gwella'r ysgol. Fodd bynnag, hyd at yn ddiweddar, mae cynnydd tuag at gyflawni argymhellion yr arolygiad blaenorol wedi bod yn rhy araf. Mae cynllun datblygu manwl yr ysgol yn rhestru'r prif flaenoriaethau a'r tasgau sy'n gysylltiedig â nhw. Mae'r cynllun yn dynodi'r rheini sydd â chyfrifoldeb, graddfeydd amser a chostau.

Mae'n sicrhau bod blaenoriaethau'n cael cyllid digonol. Mae gweithredu'r cynllun hwn a mentrau diweddar yn effeithio'n gadarnhaol ar safonau.

Mae'r ysgol yn gymuned ddysgu gref lle mae'r staff yn cefnogi'i gilydd yn dda, ac yn cyfrannu at lawer o rwydweithiau arfer broffesiynol. Mae'r ysgol wedi cyfranogi mewn nifer o gymunedau dysgu proffesiynol sydd wedi arwain at welliannau sylweddol yng nghyflawniad a phrofiadau disgyblion mewn gwyddoniaeth a TGCh.

### **Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol ystod dda o bartneriaethau buddiol sy'n cael effaith arwyddocaol ar safonau disgyblion ac yn cyfoethogi eu profiadau dysgu. Mae rhieni a gofawyr yn bartneriaid gwerthfawr sy'n chwarae rhan bwysig yn cefnogi'r ysgol trwy ddigwyddiadau cymunedol, sesiynau dysgu teuluol ac mewn gweithredoedd addoli ar y cyd, er enghraifft. Mae'r gymdeithas rhieni ac athrawon weithgar yn codi arian gwerthfawr i'r ysgol ac elusennau.

Mae cysylltiadau cadarn â'r ddarpariaeth Dechrau'n Deg ar gyfer plant oed cyn-ysgol, ac mae hyn yn helpu disgyblion i ymgartrefu'n gyflym yn y dosbarth meithrin. Mae partneriaethau gyda gwasanaethau'r awdurdod lleol yn effeithiol o ran cefnogi cynnydd a lles disgyblion. Mae'r cysylltiadau â'r clwstwr o ysgolion lleol yn rhai buddiol o ran rhannu arfer dda a hwyluso cymedroli asesiadau athrawon yn y pynciau craidd. Mae'r bartneriaeth gyda'r brif ysgol uwchradd sy'n derbyn yn hwyluso'r pontio i ddisgyblion ar ddiwedd Blwyddyn 6, ac yn galluogi'r ysgol i ddefnyddio cyfleusterau'r ysgol uwchradd.

Mae partneriaethau'r ysgol gydag eglwysi a sefydliadau lleol wedi cynnydd cyfleoedd i ddisgyblion, ac mae'r disgyblion yn falch mai'r prosiect ar y cyd ag Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yw'r gyntaf o'i math.

### **Rheoli adnoddau: Digonol**

Defnyddir staff ac adnoddau'n effeithiol gan yr ysgol i gefnogi ei blaenoriaethau ar gyfer datblygu. Mae trefniant cyllidebol effeithlon ar waith, a chysylltir gwariant ag amcanion, targedau a chynlluniau'r ysgol.

Mae'r trefniadau ar gyfer darparu amser i athrawon gynllunio, paratoi ac asesu'u gwaith yn dda. Defnyddir staff cymorth yn effeithlon gan yr ysgol a chânt effaith gadarnhaol ar safonau a chyrhaeddiad pob un o'r disgyblion. Mae gweithdrefnau rheoli perfformiad yn nodi cyfleoedd ar gyfer datblygu a hyfforddi pob un o'r staff. Mae hyfforddiant yn cefnogi blaenoriaethau'r ysgol yn effeithiol. Mae ystod ddigonol o adnoddau dysgu, a chânt eu rheoli'n dda ar y cyfan.

O ystyried y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

### Sylwadau ar ddata perfformiad

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cychwyn yn yr ysgol gyda lefelau medrau sydd ymhell islaw'r lefelau a ddisgwylir gan ddisgyblion o oed tebyg mewn llythrennedd, rhifedd a medrau personol a chymdeithasol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol. Yn 2012, roedd yr ysgol uwchlaw cyfartaledd y teulu o ysgolion o ran dangosydd deilliannau'r Cyfnod Sylfaen. O gymharu ag ysgolion tebyg roedd yr ysgol yn y 50% uchaf ar gyfer pob un o'r tri maes dysgu a aseswyd a dangosydd deilliannau'r Cyfnod Sylfaen. Ar y deiliant uwch na'r disgwyl, sef deiliant 6, fe wnaeth cyrhaeddiad yr ysgol ei gosod yn y 50% uchaf hefyd o gymharu ag ysgolion tebyg, ac roedd uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu.

Yng nghyfnod allweddol 2 dros y pum mlynedd diwethaf, mae cyrhaeddiad ar y lefel 4 ddisgwylidig mewn Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth a'r dangosydd pwnc craidd wedi gosod yr ysgol yn gyson yn y 25% isaf o'i chymharu ag ysgolion tebyg. Fodd bynnag, yn 2011 a 2012, fe wnaeth cyrhaeddiad mewn mathemateg osod yr ysgol yn y 50% isaf, ond nid yn y 25% isaf. Mae'r cyrhaeddiad hwn fwy neu lai'r un fath â chyfartaledd y teulu, ond ymhell islaw cyfartaledd Cymru gyfan. Bu tuedd sylweddol o welliant mewn siarad a gwrando dros y blynyddoedd diwethaf, ac yn 2012, gosodwyd yr ysgol yn y safle cyntaf yn y teulu o ysgolion ac roedd uwchlaw cyfartaledd Cymru gyfan. Fodd bynnag, ni fu unrhyw duedd o wella mewn darllen nac ysgrifennu. Fe wnaeth cyrhaeddiad disgyblion yn y meysydd hyn osod yr ysgol gerllaw gwaelod y grŵp teulu, ac ymhell islaw cyfartaledd Cymru gyfan.

Mae cyrhaeddiad disgyblion ar y lefel uwch na'r disgwyl, sef lefel 5, ym mhob un o'r tri phwnc craidd, wedi bod yn gyson islaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion yn y teulu a chyfartaledd Cymru gyfan, ac mae'n gosod yr ysgol yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg.

Mewn Cymraeg yng nghyfnod allweddol 2, mae cyrhaeddiad disgyblion ar lefel 4 wedi gwella'n gyson er 2010. Yn 2012, roedd cyrhaeddiad uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae merched yn cyflawni'n well na bechgyn mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu, ond mae bechgyn yn gwneud yn well na merched mewn datblygiad mathemategol, yn enwedig o ran y deiliant uwch na'r disgwyl. Yng nghyfnod allweddol 2, mae cyrhaeddiad bechgyn yn uwch na merched mewn mathemateg a gwyddoniaeth ar y lefel 4 ddisgwylidig. Mewn Saesneg, ar y lefel uwch na'r disgwyl, mae cyrhaeddiad bechgyn yn sylweddol well na merched. Ar draws yr ysgol, nid yw cyrhaeddiad y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim gystal â chyrhaeddiad y rhai nad oes hawl ganddynt gael prydau ysgol am ddim. Yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol a'r disgyblion hynny ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

#### Rhieni/Gofalwyr

Ymatebodd 52 o rieni neu ofalwyr i'r holiadur. Roedd yr ymatebion yn gadarnhaol yn gyson ac yn weddol debyg i'r darlun ledled Cymru.

Dywedodd pob un o'r rhieni neu ofalwyr a ymatebodd:

- fod yr addysgu yn dda a bod y staff yn disgwyl i ddisgyblion weithio'n galed a rhoi o'u gorau;
- bod y staff yn trin plant yn deg a gyda pharch, a bod plant yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol;
- bod eu plant yn cael eu hannog i fwyta'n iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd;
- bod plant yn cael cymorth ychwanegol priodol a bod yr ysgol yn helpu plant i ddod yn fwy aeddfed ac ysgwyddo cyfrifoldeb; a
- bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

Dywed bron pob un o'r rhieni neu ofalwyr:

- eu bod yn fodlon â'r ysgol yn gyffredinol;
- bod eu plant yn hoffi'r ysgol a'u bod yn gwneud cynnydd da;
- bod disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol;
- bod ystod dda o weithgareddau, bod gwaith cartref yn adeiladu'n dda ar yr hyn y mae'r plant yn ei ddysgu yn yr ysgol, a bod plant yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf; a'u
- bod yn cael gwybodaeth dda a chyson am gynnydd eu plant, a'u bod yn teimlo'n esmwyth yn mynd i'r ysgol gyda chwestiynau neu broblem.

Dywed llawer o rieni eu bod yn deall gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer delio â chwynion.

#### Disgyblion

Ymatebodd 97 o ddisgyblion i'r holiadur. Roedd eu hymatebion yn nodweddiadol yn fras o'r ymatebion mewn ysgolion eraill ledled Cymru.

Dywed pob un, neu bron pob o'r disgyblion:

- eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a bod yr ysgolion yn delio'n dda ag unrhyw fwlio;
- bod yr ysgol yn eu haddysgu sut i gadw'n iach ac yn cynnig llawer o gyfleoedd i gael ymarfer corff yn rheolaidd;
- bod yr athrawon ac oedolion eraill yn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd, a'u bod yn gwybod beth i'w wneud a phwy i ofyn iddynt os ydynt yn gweld y gwaith yn anodd;

- bod gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella'u gwaith yn yr ysgol; a
- bod digon o offer a chyfrifiaduron ganddynt i wneud eu gwaith.

Dywed y rhan fwyaf o ddisgyblion eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol, a'u bod yn gwybod â phwy i siarad os ydynt yn pryderu neu'n poeni.

Dywed llawer o ddisgyblion fod plant eraill yn ymddwyn yn dda a'u bod yn gallu bwrw ymlaen â'u gwaith, a bod bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.

### Atodiad 3

#### Y tîm arolygu

Christopher Ian Dolby	Arolygydd Cofnodol
Hazel Hughes	Arolygydd Tîm
Rhiannon Mary Boardman	Arolygydd Lleyg
Glyn Williams	Arolygydd Cymheiriaid
Trui Williams	Enwebai'r Ysgol

## Copiâu o'r adroddiad

Mae copiâu o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn ([www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk))

### Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	Meithrin	Derbyn	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	3-4	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

## Rhestr termau – Cynradd

### **Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwylidig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### **Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwylidig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### **Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarterli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.



Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.